# Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)12-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth, 6 Tachwedd 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes Plaid Geidwadol Cymru

Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)11-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 23 Hydref 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor yn eu fformat drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyhoeddi'n barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes sydd i Ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)12-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor drefniadaeth busnes ar gyfer 6 a 7 Tachwedd 2007.

3.2 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth ar y gyllideb ddrafft.

3.3 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r datganiadau llafar canlynol yn cael eu gwneud yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher:

Datganiad gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ar Ganolfan Mileniwm Cymru; a

Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar Addysg yn Sir Ddinbych.

3.4 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Cynulliad yn ystyried cynnig i sefydlu ac ethol Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd ddydd Mercher. Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai ef yn cyflwyno cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 10.2 i gyfarwyddo'r Pwyllgor Rhanbarth:

I drafod dim ond materion datganoledig sy'n effeithio ar Ranbarth Etholiadol Gogledd Cymru;

I gyfarfod dim mwy nag unwaith bob tymor y Cynulliad;

I gyfarfod yn swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Colwyn; oni bai fod cytundeb wedi'i gael ymlaen llaw gan y Pwyllgor Busnes.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor y byddai Amser Pleidleisio yn digwydd ddim cynt na 5pm ar ddyddiau Mercher ar gyfer busnes anllywodraethol a busnes y Cynulliad.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)12-07(p2)**

3.6 Nododd y Pwyllgor Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Cynulliad a Busnes Anllywodraethol - BC(3)12-07(p3)**

3.7 Penderfynodd y Pwyllgor ar Fusnes y Cynulliad.

3.8 Penderfynodd y Pwyllgor ar Fusnes Anllywodraethol.

**4. Pwyllgorau'r Cynulliad**

**Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff - BC(3)12-07(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais gan Gadeirydd y Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig ynghylch Diogelu'r Amgylchedd a Rheoli Gwastraff i estyn y dyddiad terfyn i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd fod y cais am estyniad o wythnos i'r dyddiad terfyn hyd 30 Tachwedd er mwyn rhoi digon o amser i'r Pwyllgor Deddfwriaethol ystyried y materion sy'n weddill. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cynnig.

**5. Unrhyw fater arall**

**Trefniadaeth Busnes Anllywodraethol - BC(3)12-07(p5)**

5.1 Nododd y Pwyllgor y papur hwn oedd yn esbonio'r broses o glustnodi busnes anllywodraethol.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**